

Mrs Mary Burrows
Prif Weithredwr
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Ysbyty Gwynedd
Penrhosgarnedd
BANGOR
Gwynedd
LL57 2PW

Llinell Uniongyrchol: 02920 928875
Ffacs: 02920 928878
E-bost: mandy.collins@wales.gsi.gov.uk

Eich cyf / Your ref
Ein cyf / Our ref

17 Mehefin 2010

Annwyl Mary

YMWELIAD URDDAS A PHARCH DIRYBUDD: UNEDAU GLAN TRAETH A BRYN HESKETH

Ysgrifennaf i roi gwybod i chi am y canlyniadau a'r camau gweithredu a ddeilliodd o'r ymweliad 'Urddas a Pharch' dirybudd ag unedau Glan Traeth a Bryn Hesketh ar 18 a 19 Tachwedd 2009, ac i ddiolch i'ch staff am eu cyfraniadau cadarnhaol a'u cymorth parod.

Cefndir yr Ymweliad

Mae'n debyg eich bod yn ymwybodol i ni gyhoeddi ein bwriad i gynnal ymweliadau dirybudd o'r fath pan gyhoeddwyd ein Rhaglen Tair Blynedd ar gyfer 2009-2012 ym mis Gorffennaf y llynedd. Mae'r adolygiadau hyn yn canolbwyntio ar y pedwar maes canlynol:

- A yw hi'n amlwg bod urddas a pharch yn cael eu hystyried wrth roi gofal a thriniaeth?
- Pa brosesau sydd ar waith i sicrhau bod cleifion yn cael dewis o fwydydd o ansawdd cyson sy'n bodloni eu gofynion dietegol?
- Pa mor addas yw'r amgylchedd gofal?
- A yw'r holl wasanaethau a'r unigolion priodol (gan gynnwys cleifion a gofalwyr) yn cyfrannu at y gofal a thriniaeth?

Fel rhan o'r broses adolygu rydym yn cyfweld aelodau staff, cleifion a gofalwyr; yn archwilio cofnodion cleifion ac yn arsylwi'r amgylchedd, y gofal a'r driniaeth a ddarperir ar adeg ein hymweliad.

Rydym hefyd yn ystyried meysydd polisi a meysydd gweithredol eraill a allai effeithio ar ddiogelwch, preifatrwydd ac urddas, gan gynnwys:

- Systemau, prosesau ac ymwybyddiaeth o Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed (POVA)
- Systemau, prosesau ac ymwybyddiaeth o Amddiffyn Plant (POCA).
- Lefelau staffio a chymysgedd sgiliau.

Defnyddir canlyniad yr ymweliad hwn hefyd i gyfrannu at:

- Ein hadolygiad o weithrediad y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru.
- Dilysiad hunanasesiadau Safonau Gofal Iechyd.

Yn bwysicaf oll, bydd yr ymweliadau'n werthfawr er mwyn cynnig sicrwydd i gleifion a'r cyhoedd ynglŷn ag ansawdd y gwasanaethau gofal iechyd a ddarperir, a bydd yr holl lythrau rheoli a baratoir o ganlyniad i'r ymweliadau yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan.

Cynhaliwyd ein hymweliad dros gyfnod o 24 awr ddydd Mercher 18 a dydd Iau 19 Ionawr. Rhoddodd hyn gyfle i'n hadolygwyr ystyried effaith trefn ddyddiol arferol y ward a newid sifft ar urddas cleifion ac i ddatblygu dealltwriaeth o ddiwylliant yr unedau yr ymwelwyd â hwy. Canolbwyntiodd ein hymweliad ar y ward Henoed Eiddil eu Meddwl (EMI) yng Nglan Traeth a'r ward EMI a'r ysbyty dydd ym Mryn Hesketh.

Yn gyffredinol, roeddem yn teimlo bod yr unedau yn cynnig amgylchedd gofalgwr a chefnogol i gleifion ac aelodau'r staff. Roedd yr amgylchedd ffisegol yn arbennig o gadarnhaol gan ymddangos yn lân ac wedi'i drefnu'n dda. Felly hefyd yr ymgysylltiad unigol sylweddol rhwng aelodau'r staff a'r cleifion. Hefyd, roedd aelodau'r staff yn ymwybodol o'r angen i sicrhau urddas cleifion ac yn barod iawn i rannu cyfrifoldebau.

A yw hi'n amlwg bod urddas a pharch yn cael eu hystyried wrth roi gofal a thriniaeth?

Er yr ymddygiad heriol a ddangoswyd gan rai cleifion, roedd yn amlwg bod aelodau'r staff yn rhoi pwyslais ar gynnal urddas yr unigolyn.

Ystafelloedd sengl yn bennaf oedd yn y ddwy ward, gan ei gwneud yn haws i reoli preifatrwydd cleifion. Roedd dwy ystafell ddwbl yn ward Bryn Hesketh a sicrhawyd preifatrwydd ac urddas y cleifion trwy ddefnyddio llenni wrth ddarparu unrhyw ofal / archwiliadau clinigol.

Meysydd i'w gwella

Er y rhoddir sylwadau ar faterion yn ymwneud â gallu a rhoi caniatâd yng nghofnodion clinigol y cleifion, nid ydynt wedi'u cofnodi ar ffurflen gydnabyddedig. Roedd gan aelodau staff yng Nglan Traeth ddealltwriaeth gyffredinol o'r hyn a olygir gan allu a rhoi

caniatâd, ond roeddem yn teimlo bod diffyg dealltwriaeth o ran union ystyr y termau hyn. Os nad yw aelodau staff yn hyderus eu bod yn deall yn llawn yr hyn a olygir gan 'allu' a 'chaniatâd' yna maent yn llai tebygol o herio unrhyw ymddygiad amhriodol gan gydweithwyr.

Dangosodd aelodau'r staff ym Mryn Hesketh ddealltwriaeth dda o ganiatâd a gallu ac roedd hyn yn amlwg yn nodiadau'r cleifion ac wrth newid sifft, ond unwaith eto gallai'r broses o gofnodi'r penderfyniadau hyn fod yn fwy eglur.

Pa brosesau sydd ar waith i sicrhau bod cleifion yn cael dewis o fwydydd o ansawdd cyson sy'n bodloni eu gofynion dietegol?

Cedwir yn llym at amseroedd prydau bwyd wedi'u diogelu yng Nglan Traeth ac mae aelodau'r staff o'r farn bod hyn o fudd sylweddol i les y cleifion, a hynny am resymau da. Yr unig beth sy'n peri mân bryder yw y gallai hyn arwain at ddull anhyblyg a allai olygu na fydd perthnasau yn cynnig cynorthwyo yn ystod amser prydau bwyd. Fodd bynnag, ac eithrio hyn, cydnabyddir bod cymorth i fwydo cleifion ar gael yn rhwydd a bod pob aelod o staff yn ystyried y swyddogaeth hon yn rhan o'i gyfrifoldebau.

Dywedodd un claf y siaradwyd ag ef bod ansawdd y bwyd 'cystal â gartref' ac mae adborth o'r fath, ynghyd â'r ffaith bod bwyd a diod ar gael y tu allan i'r oriau arferol, yn awgrymu nad oes unrhyw bryderon yn y maes hwn yng Nglan Traeth.

Defnyddir asesiadau maethol a siartiau pwysau yn briodol.

Meysydd i'w gwella

Yr unig fyrbrydau oedd ar gael yn ysbyty dydd Bryn Hesketh oedd bisgedi, ac felly nid oedd defnyddwyr nad oeddent yn dymuno cael prif bryd bwyd amser cinio neu a oedd eisiau bwyd y tu allan i'r cyfnod hwn, yn gallu cael mynediad at fyrbrydau ysgafnach fel brechdanau. Ni ystyriwyd bod byrbrydau y tu allan i amseroedd prydau ar y ward yn broblem.

Mae ward Bryn Hesketh yn gweithredu amseroedd prydau bwyd wedi'u diogelu. Fodd bynnag, fe'n hysbyswyd gan aelodau staff nad yw asiantaethau/gwasanaethau eraill yn cydymffurfio â'r cais. Dylai aelodau staff uwch gefnogi aelodau staff y ward i'w cynorthwyo i orfodi amseroedd prydau bwyd wedi'u diogelu.

Pa mor addas yw'r amgylchedd gofal?

Dywedodd y cleifion bod glanweithdra o safon uchel. Roedd yr amgylchedd ffisegol heb annibendod ac mae'r cyfleusterau tai bach ac ymolchi ar ward Glan Traeth yn addas o ran nifer a'r ddarpariaeth i'r ddau ryw. Mae deunydd ymolchi personol yn cael eu goruchwyllo'n dda i osgoi camddefnydd damweiniol ar ward Glan Traeth.

Ceir cymorth therapi da yn yr ysbyty dydd ym Mryn Hesketh ac mae gweithgareddau wedi'u cynllunio a chymorth Therapi Galwedigaethol ar gael ar y Ward. Mae'r dulliau therapiwtig a'r cymorth rhyngasiantaethol a ddarperir ym Mryn Hesketh yn arloesol.

Meysydd i'w gwella

Mae'n anodd cael cydbwysedd rhwng cynnal preifatrwydd a hwyluso arsylwadau o gleifion pan eu bod yn eu hystafelloedd gwely. Nid oes unrhyw baneli arsylwi sy'n golygu bod yn rhaid i aelodau'r staff agor drysau cleifion a gall hyn arwain at ymyrraeth neu darfu ar gwsgr. Mae hwn yn fater y mae angen i'r sefydliad ei ystyried a dod o hyd i ateb derbyniol.

Dylid adolygu'r ddarpariaeth o gyfleusterau ysmegu gan fod galw gan rai cleifion, ond ar hyn o bryd mae'n rhaid i aelodau'r staff fynd â'r cleifion allan lle y maent yn agored i elfennau'r tywydd.

Roedd yn ymddangos bod diffyg cymhorthion cyfathrebu ar gael i gleifion â namau ar y synhwyrau yn y ddwy uned; er enghraifft, y diffyg dolen sain yn nerbynfa Bryn Hesketh a diffyg lluniau yn yr unedau drwyddynt draw.

Nid oedd yn ymddangos bod arwyddion i fannau penodol fel tai bach/ystafelloedd ymolchi ac ystafelloedd gwely yn addas ar gyfer cleifion â dementia. Byddai arwyddion mwy a lluniau perthnasol yn ddelfrydol, yn enwedig ar gyfer y tai bach ar gyfer rhyw penodol ar ward Bryn Hesketh. Dylai fod ffyrdd priodol ar gael hefyd i gleifion allu adnabod eu hystafelloedd gwely eu hunain.

Mae cypyrddau y gellir eu cloi ym Mryn Hesketh ar gyfer cadw deunydd ymolchi personol, ond nid oedd yr holl gypyrddau wedi'u cloi. Dylai fod polisi eglur ar gadw deunydd ymolchi cleifion gan ei bod yn orfodol, yn ôl Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) 2002¹, i gadw ac ymdrin â chemegau a sylweddau peryglus mewn ffordd sy'n sicrhau cyn lleied â phosibl o risg o'u herwydd ac sy'n cyfyngu cysylltiad pobl â hwy. Er ein bod yn cydnabod nad yw eitemau fel siampw ac ati yn gemegau neu sylweddau peryglus o anghenraid, rydym yn teimlo bod perygl ei bod yn bosibl y gallai pobl hyn dryslyd lyncu sylweddau o'r fath, yn enwedig os oes aroglau fel ffrwyth arnynt.

Canfuom ar ward Bryn Hesketh fod yr ystafelloedd gwely yn hynod amheronol eu naws ac nad oedd eitemau personol fel lluniau o deulu, blodau a chlociau ac ati ynddynt. Dylid annog cleifion, perthnasau a gofalwyr i wneud ystafelloedd y cleifion mor gyfforddus ac unigryw â phosibl.

Mae presenoldeb cath ar ward Glan Traeth yn amlwg yn cynnig budd emosiynol pwysig i gleifion, ond serch hynny mae'n cynrychioli ffynhonnell haint neu asiant gwasgaru posibl. Nid ystyrir bod cathod yn peri risg mawr o haint mewn mannau EMI, cyn belled â'u bod yn cael eu harchwilio'n rheolaidd ac y ceir gwared ar lyngyr a chwain yn rheolaidd ac y'u cedwir oddi wrth fannau fel ystafelloedd clinigol a golchfeydd ac oddi wrth unrhyw gleifion y mae'n hysbys bod ganddynt haint. Dylid adolygu'r protocolau perthnasol hyn sy'n gysylltiedig â chadw cath yn ddiogel yn rheolaidd.

¹ Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd 2002.

Mae peiriant golchi ar gael ar ward Glan Traeth ar gyfer golchi dillad cleifion nad ydynt wedi'u baeddu, ac mae'n amlwg bod hyn o fudd i atgyfnerthu'r briodwedd o amgylchedd gofalgar. Fodd bynnag, nid oedd protocolau ar gyfer ei ddefnyddio na dulliau o fonitro defnydd cywir i'w gweld yn amlwg ac felly dylid adolygu'r weithdrefn weithredu i fynd i'r afael ag unrhyw faterion rheoli heintiau posibl.

A yw'r holl wasanaethau a'r unigolion priodol (gan gynnwys cleifion a gofalwyr) yn cyfrannu at y gofal a thriniaeth?

Roedd nodiadau cleifion ysbyty dydd a ward Bryn Hesketh yn adlewyrchu arfer da o ran cynnwys gofalwyr ac asiantaethau eraill mewn gwaith cynllunio gofal a chynllunio rhyddhau cleifion ac roedd presenoldeb yng nghyfarfodydd y Tîm Amlddisgyblaethol a'r cofnodion yn dda.

Mae aelodau'r staff o'r farn eu bod yn cael eu hysbysu'n dda am unrhyw gwynion gan gleifion ac felly maent mewn sefyllfa i allu ymateb yn adeiladol. Cynorthwyir hyn hefyd gan y ffaith bod aelodau'r staff yn gweithio mewn timau clos ac yn sicr yn ymdrin â chleifion ar sail un i un. Mae hyn yn golygu bod aelodau'r staff yn cynnal ymwybyddiaeth dda o safbwyntiau cyffredinol cleifion.

Dangosodd ein trafodaethau gydag un claf bod ganddi ddealltwriaeth dda o natur glinigol ei phroblemau iechyd ac roedd yn ymwybodol o'i chynllun rhyddhau. Ni arweiniodd unrhyw beth a glywyd gennym i ni gredu bod safbwynt y claf hwn yn anarferol.

Meysydd i'w gwella

Mae cofnodion y cleifion yn anghyson o ran cynllun, cynnwys a diffyg dogfennau ffurfiol o faes gofal cymdeithasol, sy'n dangos diffyg integreiddiad. Yn benodol, nid oes datganiadau ffurfiol o ganiatâd i'w gweld yn amlwg.

Mae asesu risg yn cyflawni swyddogaeth bwysig o ran diffinio'r cynllun gofal, ond oherwydd anghysondeb cofnodion y cleifion, gall dod o hyd i wybodaeth berthnasol fod yn dasg anodd i unrhyw unigolyn nad yw mewn cysylltiad rheolaidd â'r uned, fel unrhyw glinigwyr locwm neu unrhyw staff nyrsio asiantaeth.

Mae strwythur sefydliadol Glan Traeth yn cyfyngu ar ddefnydd gwell o'r therapyddion sydd ar gael ac felly byddai trefnydd gweithgareddau ffurfiol yn ychwanegiad i'w groesawu.

Roedd tystiolaeth o weithgarwch archwilio clinigol yn brin ac er bod gan aelodau'r staff rywfaint o wybodaeth am 'Hanfodion Gofal' nid oedd yn ymddangos bod hyn wedi'i ymsefydlu yn niwylliant y staff hyd yma. Roedd gan aelodau staff Bryn Hesketh rywfaint o wybodaeth am yr Hanfodion Gofal, ond roedd yr archwiliad yn anghyflawn oherwydd problemau TG ac roedd lefel yr ymwybyddiaeth wedi'i chyfyngu i rai aelodau staff cymwysedig.

Dangosodd archwiliad o gofnodion y cleifion ar ward Glan Traeth anghysondebau o ran cynnwys cleifion neu ofalwyr yn ymarferol yn y gwaith o gynllunio ar gyfer trosglwyddo gofal.

Mae'n ymddangos na ddechreuir cynllunio ar gyfer trosglwyddo gofal wrth dderbyn cleifion ond yn hytrach mae'n cael ei adael tan fod amserlenni'r penderfyniadau yn cael eu pennu gan ddigwyddiadau yn hytrach na phroses sydd wedi'i chynllunio'n rhesymegol.

Systemau, prosesau ac ymwybyddiaeth o Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed (POVA)

Systemau, prosesau ac ymwybyddiaeth o Amddiffyn Plant (POCA). Lefelau staffio a chymysgedd sgiliau.

Ceir pwyslais ar hyfforddiant staff sy'n seiliedig ar werthuso a thrafodaethau datblygiad personol. Roedd nifer fawr o'r aelodau staff y siaradwyd â hwy yn manteisio ar y cyfleoedd hyfforddiant sydd ar gael.

Mynegwyd y broses ddwysáu o ran POVA yn dda ac roedd yn ymddangos bod parodrwydd i herio ymddygiad annerbyniol gan gydweithwyr wedi'i ymsefydlu yn niwylliant y staff.

Mae hyfforddiant gorfodol (gan gynnwys POCA) wedi'i gyfeirio'n dda ac eithrio, o bosibl, elfennau fel cydraddoldeb, cysylltiadau hiliol a gofal cwsmeriaid. Gan fod gweithgarwch gwerthuso yn cael ei reoli'n gadarn, ceir sail dystiolaeth dda ar gyfer darparu hyfforddiant staff priodol.

Yn gyffredinol, derbyniwyd neges gref bod aelodau'r staff yn teimlo eu bod yn gweithio mewn amgylchedd cefnogol.

Meysydd i'w gwella

Byddem yn disgwyl y byddai gan ysbytai lle y gellir cadw cleifion yn gaeth, bolisiau a gweithdrefnau wedi'u sefydlu ar gyfer plant sy'n ymweld, yn unol â Chod Ymarfer y Ddeddf Iechyd Meddwl².

Roedd dealltwriaeth yr aelodau staff o 'allu' a 'chaniatâd' yn gyfyngedig, er bod ymwybyddiaeth dda o'r gwahaniaethau rhwng dewisiadau beunyddiol a dewisiadau 'bywyd.'

Gall aelodau staff sy'n gweithio yng Nglan Traeth yn ystod y nos deimlo'n eithaf agored i niwed; yn enwedig yn ystod y cyfnod twristiaeth pan geir ymddygiad gwrthgymdeithasol weithiau yn y strydoedd a'r llwybrau sy'n agos i'r uned. Codwyd statws diogelwch yr adeilad (y drws ffrynt a'r ffenestri yn benodol) fel problem yn y gorffennol ac mae dyfodol ansicr ysbyty Brenhinol Alexandra sydd y drws nesaf yn atgyfnerthu'r gofyniad i ddiogelwch yr uned gael ei archwilio.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech gyflwyno cynllun gweithredu sy'n mynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella a grybwyllwyd yn y llythyr hwn, erbyn 30 Gorffennaf 2010.

² Deddf Iechyd Meddwl 1983, Cod Ymarfer ar gyfer Cymru, pennod 20: Ymweld â chleifion yn yr Ysbyty, Plant a Phobl Ifanc.

Yn y cyfamser pe bai gennych unrhyw gwestiynau ynghylch cynnwys y llythyr hwn, mae croeso i chi fy ffonio fi neu Tracey Jenkins ar 02920 928913 neu anfon e-bost at: tracey.jenkins@wales.gsi.gov.uk.

Yr wyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at Richard Bowen a Wendy Chatham.

Yn gywir

Mandy Collins
Dirprwy Brif Weithredwr